DULL YR ASIANTAETH SAFONAU BWYD O YMDRIN Â RISG

1. Cyflwyniad

1.1. Prif amcan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yw

"…diogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau a allai godi mewn cysylltiad â bwyta bwyd, (gan gynnwys risgiau a achosir o ganlyniad i'r ffordd y caiff ei gynhyrchu neu ei gyflenwi) ac fel arall diogelu buddiannau'r defnyddiwr mewn perthynas â bwyd."

Mae llawer iawn o'n gwaith yn dibynnu ar ddeall ac ymdrin â risg. Yn y datganiad hwn rydym yn disgrifio sut mae'r Asiantaeth yn bwriadu ymdrin â materion risg, fel y gall pawb a all gael eu heffeithio gan ein penderfyniadau ddeall ein ffordd o weithio.

1.2. Mae pawb yn wynebu risg o ryw fath yn eu bywyd dyddiol. Maent yn penderfynu drostynt eu hunain ar y ffordd y maent yn dewis delio â hwy. Maent yn gwneud penderfyniadau unigol syml megis pryd i groesi'r ffordd ac a ddylid teithio.

1.3. Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ymdrin â llawer o wahanol faterion yn ymwneud â bwyd, ond ein nod fydd cymhwyso'r egwyddorion canlynol yn ein holl waith:

- **Byddwn yn defnyddio dull rhagofalus** – hynny yw, ni fyddwn bob amser yn aros tan fod gennym brawf o berygl posib cyn gweithredu neu roi cyngor. Cymerir camau gweithredu o'r fath ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Bydd yn cael ei adolygu os daw tystiolaeth newydd i'r amlwg.
- **Byddwn yn gwneud penderfyniadau a gweithredu yn gymesur â'n barn orau am y risgiau**. Bydd ein hargymhellion yn ystyried natur a graddau'r risgiau sydd dan sylw a chostau a manteision y camau gweithredu arfaethedig.
- **Byddwn yn gweithredu'n gyflym pan fydd angen.**

- **Ein nod yw bod yn gyson yn ein dull** – byddwn yn ceisio bod yn systematig yn y ffordd y byddwn yn mynd i'r afael â gwahanol faterion.
- **Ein nod yw rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i bawb** er mwyn iddynt wneud dewisiadau drostynt eu hunain.
- **Ein nod yw bodloni anghenion a lleddfu pryderon ein defnyddwyr**. Fodd bynnag, byddwn yn ymgynghori â phawb sy'n cael eu heffeithio neu a allai gael eu heffeithio gan ein penderfyniadau.
- **Ein nod yw dysgu o brofiad eraill**, yn y wlad hon a thramor, ac o'r gwaith damcaniaethol sydd wedi'i gyhoeddi ar risg a sut i ymdrin ag ef.

2. Pan fo problem bosib yn ymddangos

2.1. Efallai y byddwn yn dod yn ymwybodol o fater mewn amrywiaeth o ffyrdd. Gall swyddog gorfodi, manwerthwr, aelod o'r cyhoedd neu wneuthurwr bwyd ein hysbysu o risg bosib. Efallai hefyd y cawn ein hysbysu am broblemau sy'n codi ar ffermydd. Gallwn hefyd ganfod problem bosib trwy un o'n harolygon neu'n hastudiaethau gwyddonol.

2.2. Byddwn yn asesu'r risg, gan ystyried y cyngor gwyddonol gorau y gallwn ei gael. Byddwn wedyn yn penderfynu beth ddylid ei wneud, os rhywbeth, mewn ymgynghoriad â'r rhai sy'n cael eu heffeithio neu a allai gael eu heffeithio.

2.3. Byddwn yn hysbysu'r cyhoedd cyn gynted â phosib ar ôl i'r mater godi. Ein nod bob amser fydd egluro'n glir ac mewn iaith syml beth yw'r materion, beth yw ein barn, a'r hyn y bwriadwn ei wneud. Byddwn hefyd yn egluro a oes angen i'r cyhoedd ystyried cymryd camau gweithredu.

3. Asesu'r risg

3.1. Pan fo yna bryderon y gall bwyd neu broses arbennig fod yn niweidiol, mae'n rhaid i ni ystyried yn gyntaf a oes yna risg mewn gwirionedd. Os oes, mae angen i ni benderfynu pa mor ddifrifol yw hynny. Mae asesu risg yn golygu dod o hyd i'r atebion i dri chwestiwn allweddol:

- "beth yw'r niwed a all gael ei achosi?"
- "pa mor debygol yw hynny?"
- "oes yna grwpiau arbennig o'r boblogaeth sy'n fwy agored i risg nag eraill?"

Mae angen dadansoddiad gwyddonol manwl fel arfer i asesu'r risg.

3.2. Un o'n Hegwyddorion Arweiniol, a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth, yw y bydd ein hasesiadau o safonau bwyd a diogelwch bwyd

"...yn ddiduedd ac yn seiliedig ar y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael, wedi'i ddarparu gan arbenigwyr a wahoddwyd yn eu rhinwedd eu hunain i roi cyngor annibynnol."

Ein dull safonol o asesu risg fydd gofyn am gyngor arbenigwyr, sy'n gweithio ar Bwyllgorau Ymgynghorol annibynnol arbenigol fel rheol. Mae'r holl bwyllgorau hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o blith defnyddwyr yn ogystal â gwyddonwyr.

3.3. Rydym yn disgwyl i'r pwyllgorau hyn weithio'n agored, fel y gall unrhyw un sydd â diddordeb weld beth maent yn ei wneud a sut y maent yn ei wneud. Bydd papurau pwyllgorau, agendâu a chofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Asiantaeth **(www.food.gov.uk)**. Bydd copïau caled ar gael ar gais. Bydd y pwyllgorau yn ystyried yr holl wybodaeth wyddonol berthnasol sydd ar gael o bob cwr o'r byd, gan gynnwys cyngor gan grwpiau arbenigol cenedlaethol a rhyngwladol eraill. Pan fydd ein hymgynghorwyr yn asesu gwybodaeth o'r fath, rydym yn disgwyl iddynt ofyn am farn arbenigwyr eraill. Rydym yn llawn gefnogi casgliadau'r adolygiad, dan arweiniad y Prif Ymgynghorwr Gwyddonol, Syr Robert May, ar weithdrefnau risg a ddefnyddir gan Bwyllgorau Ymgynghorol y Llywodraeth sy'n ymdrin â diogelwch bwyd. Rydym yn disgwyl i'n Pwyllgorau Ymgynghorol weithredu yn unol â'r casgliadau hynny.

3.4. Mewn argyfwng, neu os digwydd rhywbeth annisgwyl, efallai na fyddwn yn gallu cael cyngor y pwyllgor cyfan. Byddwn bob amser yn ceisio cael rhywfaint o gyngor arbenigol annibynnol os yw'r mater yn achosi risg ddifrifol ac yn gymhleth. Gellir gwneud penderfyniadau arferol nad oes angen eu cyfeirio at grwpiau arbenigol ar sail cyngor ein gwyddonwyr ein hun.

4. Pan nad yw risgiau'n glir

4.1. Pan fo risgiau'n aneglur mae ein gwaith yn fwy anodd. Y cwestiwn cyntaf fydd gwyddonwyr sy'n cynnal asesiad o risg yn ceisio'i ateb fydd "pa mor beryglus yw?". Weithiau gallant gyfrifo ateb ar ffurf rhif (megis "un siawns mewn miliwn").

Yn aml iawn, mae'r wybodaeth wyddonol yn llai penodol, ac ni allant roi'r math yna o ateb. Mae arbenigwyr fel arfer yn delio â hyn trwy gymhwyso ffactorau diogelwch: hynny yw, amcangyfrifon sy'n fwy gofalus nag sy'n rhaid iddynt fod. Yn aml y cyfan y gallant ei wneud yw dweud (er enghraifft) mai bach iawn o risg y mae defnyddwyr dynol yn ei wynebu, os ydynt yn bwyta llai na hyn a hyn.

4.2 Ar y rhan fwyaf o faterion sy'n hysbys, gall ein hymgynghorwyr ddefnyddio gwybodaeth wyddonol sydd wedi'i sefydlu fel sail i'w hasesiad o risg. Ein nod, wrth gwrs, yw sicrhau bod ein gwybodaeth wyddonol yn gyfredol.

4.3 Yn y rhan fwyaf o feysydd gwyddonol (nid yn unig diogelwch bwyd), gall arbenigwyr ddatblygu syniadau gwahanol am rai problemau. Gall hyn effeithio ar eu barn am lefel y risg. Mae'r drafodaeth hon rhwng arbenigwyr fel arfer yn arwain at ymchwil newydd.

4.4 Os yw'r broblem a wynebwn yn un newydd, rydym yn llai tebygol o wybod beth yw'r risgiau. Wrth ymdrin â phroblemau o'r fath, gall fod yn anodd penderfynu pa gamau gweithredu i'w cymryd hyd nes y bydd ymchwil newydd wedi'i chyflawni. Weithiau aros tan y byddwn yn gwybod beth yw canlyniad ymchwil newydd all fod orau. Fodd bynnag, efallai na fyddwn yn gallu aros tan hynny, yn enwedig os gallai fod yna risg ddifrifol i iechyd. Yn yr achosion hyn byddwn yn gofyn i'n pwyllgorau annibynnol neu ymgynghorwyr eraill i bwyso a mesur yr holl dystiolaeth yn ofalus. Byddwn yn gofyn iddynt ddweud wrthym faint o ansicrwydd sydd yna a beth yw eu pryderon, ac i roi eu cyngor gorau i ni.

4.5 Pan fo'r risg yn ansicr, byddwn yn gweithredu dull rhagofalus. Os oes yna reswm da dros gredu y gallai fod yna risg ddifrifol i iechyd y cyhoedd, byddwn yn gweithredu'n briodol, yn gymesur â'r risg, canlyniadau'r gweithredu arfaethedig a lefel yr ansicrwydd. Byddwn yn gweithredu ar sail tystiolaeth wyddonol, ond ni fyddwn yn gadael i ddiffyg prawf gwyddonol ein rhwystro.

5. Rheoli risgiau a phenderfynu beth i'w wneud

5.1. Pan fyddwn wedi derbyn cyngor gwyddonol, yn aml bydd yna nifer o bosibiliadau a byddwn yn ystyried beth sydd orau ymhob achos. Byddwn – pryd bynnag posib – yn cysylltu â'r rhai sy'n cael eu heffeithio, ac yna byddwn yn

pwyso a mesur yr holl ddewisiadau posib.

5.2. Byddwn yn ceisio bod yn gyson ac yn deg yn ein penderfyniadau. Ni fyddwn yn gwneud penderfyniad heb ystyried y manteision a'r costau tebygol. Ein nod fydd seilio ein hargymhellion a'n camau gweithredu ar gydbwysedd y risgiau a'r manteision i bawb sy'n gysylltiedig. Fodd bynnag, byddwn bob amser yn rhoi'r pwyslais mwyaf ar ddiogelu buddiannau'r defnyddwyr.

5.3. Rydym hefyd yn cydnabod bod gan wahanol bobl wahanol bryderon. Credwn, cyn belled â phosib, y dylai defnyddwyr allu gwneud eu dewisiadau eu hunain. Byddwn yn ystyried lefel y risg a safbwyntiau'r cyhoedd p'un a ydynt am gymryd y risg. Byddwn yn ceisio rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i bawb er mwyn iddynt allu gwneud y dewis hwnnw drostynt eu hunain.

5.4. Bydd ein hargymhellion yn talu sylw arbennig i'r risgiau. Os yw'r niwed posib i iechyd pobl yn debygol o fod yn ddifrifol neu'n gyffredin iawn, byddwn yn barod i argymell camau gweithredu difrifol os oes angen. Ar y llaw arall, os yw unrhyw niwed yn debygol o fod yn fach, efallai y byddwn ond yn argymell camau gweithredu cyfyngedig. Byddwn yn sensitif i risgiau posib i grwpiau arbennig, megis plant ifanc, menywod beichiog, grwpiau ethnig, pobl h n a'r rheiny â phroblemau iechyd arbennig.

5.5. Gallai ein hymateb fod ar sawl ffurf. Er enghraifft, efallai y byddwn yn rhoi cyngor i'r cyhoedd neu i ddiwydiant. Mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn penderfynu gweithredu ein hunain, os oes gennym y pwerau i wneud hynny. Dim ond gan Weinidogion a'r Senedd y mae'r pwerau i wneud rheoliadau newydd neu basio deddfau newydd. Os ydym o'r farn mai dyna sydd angen, byddwn yn argymell camau gweithredu i Weinidogion ac yn cyhoeddi ein cyngor.

6. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb

6.1. Mae cyfathrebu yn rhan bwysig iawn o'n gwaith. Byddwn yn agored wrth wneud ein holl benderfyniadau. Ein bwriad yw cyhoeddi unrhyw gyngor sylweddol y byddwn yn ei roi i adrannau eraill y llywodraeth. Bydd ein penderfyniadau a'r hyn oedd yn sail iddynt ar gael i'r cyhoedd. Mae'r ychydig eithriadau i'r

egwyddorion hyn yn cael eu hegluro yn ein Cod Ymarfer ar Weithredu'n Agored.

6.2. Byddwn hefyd yn gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym. Ac eithrio mewn argyfwng, byddwn yn trafod y risgiau a'r dewisiadau ar gyfer mynd i'r afael â hwy gyda'r rhai all gael eu heffeithio, a byddwn yn agored yngl n â gwneud hyn. Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniad a gawn gan bawb a all gael eu heffeithio gan ein penderfyniadau – megis y cyhoedd, cynrychiolwyr defnyddwyr, awdurdodau gorfodi a diwydiant. Mae angen i ni wybod beth fydd canlyniadau ein penderfyniadau cyn i ni eu gwneud. Efallai y cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus llawn cyn i ni benderfynu ar faterion o bwys, os oes amser.

6.3. Pa fyddwn wedi dod i gasgliad, efallai y byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i rai pobl neu sefydliadau gymryd camau gweithredu, neu efallai y byddwn yn penderfynu ei fod yn fater y gall pobl benderfynu arno drostynt eu hunain. Gall fod yna achosion lle bydd mesurau a weithredwyd eisoes yn ddigonol, ac ni fydd angen i ni wneud dim. Beth bynnag, byddwn yn ei gwneud yn glir beth yw'r materion, ac yn ceisio rhoi cyngor sy'n glir ac yn hawdd ei ddeall.

Asiantaeth Safonau Bwyd

Mai 2001